# Prosiect Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog
# Digwyddiad ymgynghori ar y rhestr hir
# Crynodeb o'r adborth

**Mai 2023**

## Cefndir

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn archwilio opsiynau i reoli'r perygl llifogydd hirdymor i Borthmadog a'r cymunedau cyfagos yn fwy effeithiol. Mae'r daflen hon yn rhoi trosolwg o ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i gefnogi'r rhestr hir o opsiynau ar gyfer Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Porthmadog.

## Digwyddiadau

Trefnodd CNC ddau ddigwyddiad ymgynghori cyhoeddus ar y dyddiadau canlynol:

1. Dydd Iau, 26 Ionawr 2023, rhwng 1.30pm a 6.30pm, yng nghanolfan gymunedol y dref ('Y Ganolfan')
2. Dydd Gwener, 27 Ionawr 2023, rhwng 9.30am a 2pm, yn y Ganolfan

Roedd dwy sesiwn ymgynghori ddilynol anffurfiol hefyd ar y dyddiadau canlynol:

3. Dydd Llun, 6 Chwefror 2023, yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn ('Byw'n Iach Glaslyn'), Porthmadog
4. Dydd Mawrth, 7 Ionawr 2023, yn ymweld â busnesau lleol ar hyd Heol-y-Wyddfa

Hysbysebwyd y digwyddiad ymgynghori drwy gylchlythyr post i 2,476 o gyfeiriadau. Hefyd, diweddarwyd tudalen we y prosiect, cyhoeddwyd datganiad i'r wasg, a chyhoeddwyd negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Anfonwyd e-bost yn uniongyrchol at 182 o randdeiliaid yn ogystal.

## Deunyddiau ymgynghori

Roedd y digwyddiadau ymgynghori yn cynnwys yr elfennau a ganlyn:-

- Desg groeso gyda ffurflenni cofrestru dwyieithog a ffurflenni adborth papur.
- Map o'r ardal lle gallai mynychwyr nodi lleoliad eu cartrefi.
- Ffotograffau hanesyddol o adeileddau rheoli llifogydd yn yr ardal.
- Deunyddiau arddangos dwyieithog yn cynnwys cyflwyniad i'r cynllun, gwaith CNC yn ardal yr astudiaeth, y cyd-destun ehangach, perygl llifogydd o afonydd, adeileddau amddiffyn rhag llifogydd, a rhestr hir o opsiynau i'w hystyried.
- Sgriniau taflunydd yn dangos animeiddiadau o'r gwaith modelu llifogydd.
- Amrywiaeth o gynlluniau a thaflenni, gan gynnwys taflen yn rhoi cyngor ar sut i baratoi ar gyfer llifogydd a thaflen wybodaeth ar garthu.
- Cynlluniau i ludo nodiadau Post-it gyda sylwadau yn ymwneud ag ardaloedd penodol.
- Roedd gan CNC nifer o aelodau tîm ar gael i sgwrsio â'r mynychwyr ac i ateb cwestiynau, ynghyd â chynrychiolwyr o Gyngor Gwynedd a Dŵr Cymru.

## Presenoldeb

Daeth nifer dda i'r digwyddiadau gyda chymysgedd o randdeiliaid allweddol a thrigolion lleol. Roedd cyfanswm cofrestredig o 67 yn mynychu ddydd Iau 26 Ionawr a 59 yn mynychu ddydd Gwener 27 Ionawr. Cafodd 13 o bobl eraill eu cyfrif ar y

cliciwr ar draws y ddau ddiwrnod ond ni wnaethant gofrestru ar ôl cyrraedd. Roedd hyn yn gwneud cyfanswm o **139 o fynychwyr**.  Cafwyd ymateb isel gan fusnesau, tirfeddianwyr lleol a ffermwyr.

## Adborth

Roedd ffurflen adborth ar gael i bawb ar dudalen we canolfan ymgynghori CNC a hefyd drwy Virtual Engage. Dosbarthwyd copïau caled yn ystod y digwyddiad, gydag amlenni rhadbost â chyfeiriadau arnynt. Dychwelwyd cyfanswm o 27 o ffurflenni – **23 yn Saesneg a phedair yn Gymraeg**. O'r 23 ymateb Saesneg, roedd naw yn rhai trwy'r post ac 14 ar-lein. Ar gyfer y pedwar ymateb Cymraeg, cafwyd dau trwy'r post a chafodd dau eu cyflwyno ar-lein.

Mae'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y digwyddiad wedi'i grynhoi fel a ganlyn:-

1. Derbyniodd pob opsiwn ar y rhestr hir bleidleisiau, gyda llawer o ymatebwyr yn dewis pob opsiwn yn eu hymatebion. Y tri opsiwn a dderbyniodd y *gefnogaeth fwyaf* (59%) oedd y canlynol: '***Uwchraddio Amddiffynfeydd Afonydd***', '***Gwelliannau i Gyrsiau Dŵr***', ac '***Atebion Pwmpio***', wedi'u dilyn yn agos gan: '***Uwchraddio Amddiffynfeydd Arfordirol***' a '***Gwarchod ar Lefel Eiddo***' ar 52%. Y rhai a dderbyniodd y *gefnogaeth leiaf* oedd **'*Ailffurfweddu Amddiffynfeydd Arfordirol***' ac '***Ardal Rhybuddio Llifogydd Newydd***', ar 26% a 22% yn y drefn honno.

2. Pan ofynnwyd 'Beth ydych chi'n ei werthfawrogi fwyaf am yr amgylchedd ym Mhorthmadog?', **'*Bywyd Gwyllt a Natur***' oedd yr ateb mwyaf poblogaidd gyda 67%. Dilynwyd hyn gan '***Tirwedd a Golygfeydd***' a '***Hanes a Diwylliant***', a ddewiswyd gan 59% o ymatebwyr, o'u cymharu â'r 37% a ddewisodd '***Cyfleoedd Hamdden***'.

3. Pan ofynnwyd 'Sut mae llifogydd yn effeithio arnoch chi yn Ardal Astudiaeth Porthmadog', roedd y mwyafrif yn pryderu am lifogydd mewn cartrefi (14), a'r effaith ar fusnesau ac economeg gymdeithasol ehangach (7). Roedd 4 sylw yn ymwneud ag yswiriant tŷ a busnes.

4. Pan ofynnwyd 'Pam eu bod wedi dewis yr opsiynau ar y rhestr hir?', cafwyd ymateb cymysg i nifer yr opsiynau a oedd yn cael eu cynnig. Roedd rhai o'r farn ei bod yn bwysig bod pob opsiwn yn cael ei ystyried. Roedd eraill yn meddwl bod y nifer uchel o opsiynau yn dangos diffyg atebion hyfyw. Roedd sylwadau o dan yr adran 'opsiynau eraill' yn dangos diffyg hyder y gallai CNC gyflawni'r prosiect a diffyg hyder y byddai digon o arian ar gael.

5. Pan ofynnwyd 'A oes gennych unrhyw bryderon ynghylch yr opsiynau ar y rhestr hir?', awgrymwyd opsiynau amgen gan rai ymatebwyr. Roedd hyn yn cynnwys carthu'r harbwr, adeiladu arllwysfeydd ychwanegol i gynyddu capasiti, a hwyluso ynni'r llanw. Y prif bryder oedd cost a diffyg cyllid (5). Roedd rhywfaint o amheuaeth ynghylch y mapiau sy'n darlunio'r perygl neu'r risg o lifogydd.

## Y camau nesaf

Bydd yr ymatebion adborth, ynghyd â’r rhai a dderbyniwyd yn ystod cyhoeddi'r llythyr ym mis Mawrth 2021 ar brofiadau llifogydd, yn cael eu defnyddio i lywio cam nesaf y prosiect. Bydd hyn yn cynnwys asesu'r rhestr hir o opsiynau, gan ystyried meini prawf penodol sy'n cynnwys gwerth am arian, cynaliadwyedd, a hyfywedd technegol. Gan ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar dystiolaeth, byddwn yn argymell rhestr fer o opsiynau ac yn cyflwyno’r rhain i’r gymuned ddiwedd haf 2023. Wedi hynny, rydym yn rhagweld y bydd arolygon ac ymchwiliadau ar y safle yn cael eu cynnal i lywio ein dealltwriaeth ymhellach ac i geisio nodi un opsiwn a ffefrir yn ddiweddarach eleni.

## Cadwch mewn cysylltiad

Diolch am rannu eich barn. Byddwn yn parhau i ddarparu diweddariadau prosiect rheolaidd trwy ein tudalen we:

https://cyfoethnaturiol.cymru/risgllifogyddporthmadog

Cysylltwch â ni os hoffech chi gael gwybod mwy a rhannu eich barn os nad ydych chi wedi gwneud hynny eisoes. Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer diweddariadau cynnydd yn y dyfodol:-

E-bost: risgllifogydd.porthmadog@grasshopper-comms.co.uk

Ffôn: Andrew Basford, Rheolwr Prosiect (Dysgwr Cymraeg), ar 03000 65 3846 neu Sharon Parry, Swyddog Cefnogi Tîm Prosiect (Siaradwr Cymraeg), ar 03000 65 5264.

Gallwch hefyd ysgrifennu atom isod:-

Sharon Parry
Cyfoeth Naturiol Cymru
Swyddfa Bangor
Maes y Ffynnon
Gwynedd
LL57 2DW